Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig
Heol Hir
Draenen Pen-y-graig
Caerdydd
CF14 9LA

30/09/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Medi 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella effeithiolrwydd cynllunio gwelliant yr ysgol

- Ers yr arolygiad craidd, mae uwch arweinwyr wedi mabwysiadu ymagwedd fwy strategol at fonitro a gwelliant yr ysgol. Maent yn gweithio'n agos gyda staff a llywodraethwyr i arsylwi addysgu a dysgu, adolygu cynllunio, ac yn casglu barn rhanddeiliaid yn bwrpasol.
- At ei gilydd, mae uwch arweinwyr yn nodi meysydd i'w gwella mewn addysgu, dysgu, a bywyd yr ysgol yn ehangach yn gywir. Maent yn dechrau blaenoriaethu ac yn canolbwyntio targedau gwella'r ysgol ar y meysydd pwysicaf i'w datblygu yn graffach.
- Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn targedau gwella'r ysgol yn rheolaidd, ond nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith eu gwaith ar ddysgu disgyblion na gwelliannau i addysgu.
- Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen cryfhau dealltwriaeth staff o brif flaenoriaethau gwella'r ysgol trwy eu halinio â gweithgareddau monitro a thargedau rheoli perfformiad.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae diwylliant cryf o ymddiriedaeth yn yr ysgol yn galluogi cydweithwyr i rannu arfer dda a chymryd rhan mewn deialog broffesiynol. Mae athrawon yn elwa ar adolygiadau perfformiad rheolaidd, cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr ac ymweliadau ag ysgolion eraill.

### Sicrhau bod addysgu ar draws yr ysgol yn herio pob un o'r disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl

- Mae arweinwyr wedi ymgorffori systemau i helpu cynorthwyo athrawon i gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu gyda gwahanol lefelau o her ar gyfer gwahanol ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion mwy abl. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio'r rhain yn briodol i sicrhau bod gweithgareddau dysgu'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd priodol. Mae arweinwyr yn cydnabod nad yw'r addysgu mewn mathemateg mor llwyddiannus eto ag ydyw mewn meysydd dysgu eraill o ran herio disgyblion.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion iau yn briodol heriol a difyr. Mae athrawon yn defnyddio'r awyr agored yn dda i ymestyn dysgu'r disgyblion a darparu profiadau dysgu dilys sy'n cefnogi eu datblygiad cynnar yn greadigol. Mewn mwyafrif o achosion, mae oedolion yn cefnogi a galluogi dysgu a chynnydd disgyblion yn effeithiol.
- Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd cynyddol i feithrin mwy o annibyniaeth a pherchnogaeth o ddysgu, er enghraifft trwy dasgau annibynnol. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion hŷn i ddatblygu ac atgyfnerthu eu dysgu yn fuddiol.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn sicrhau bod dysgu'n symud ymlaen ar gyflymdra addas ac nad yw disgyblion yn eistedd yn oddefol am gyfnodau estynedig. Pan fydd angen amser ar ddisgyblion i ystyried gwybodaeth neu amser i drafod gyda'u cyd-ddisgyblion, maent yn caniatáu amser priodol i hyn ddigwydd.
- Mewn llawer o achosion, mae adborth athrawon yn gefnogol ac yn galluogi disgyblion i fyfyrio ar eu cynnydd a gwneud gwelliannau, lle mae angen.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/thornhill-primary-school-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol